

Meddyginiaethau a ddefnyddir i Reoli Diabetes

	BIGUANIDES – METFORMIN GLUCOPHAGE SUKKARTO	Atalyddion SGLT2- DAPGLIFLOZIN CANAGLIFLOZIN EMPAGLIFLOZIN ERTUGLIFLOZIN	Atalyddion DPP4 – LINAGLIPTIN SITAGLIPTIN SAXAGLIPTIN ALOGLIPTIN VILDAGLIPTIN	SULPHONYLUREAS- GLICLAZIDE GLIMEPERIDE	THIAZOLIDINEDIONES- PIOGLITAZONE	YSGOGWR DERBYNNYDD GLP-1 DULAGLUTIDE SEMAGLUTIDE LIRAGLUTIDE LIXISENATIDE EXENATIDE
SUT MAE'N GWEITHIO?	Yn lleihau'r glwcos sy'n cael ei gynhyrchu yn yr afu. Yn lleihau ymwrthedd i inswlin.	Yn atal yr arenau rhag ail-amsugno'r glwcos.	Yn cynyddu lefelau'r hormon incretin drwy atal yr ensym DPP4 sy'n achosi iddo fod yn anweithredol.	Yn ysgogi'r pancreas i ryddhau inswlin.	Yn lleihau ymwrthedd i inswlin.	Yn ysgogi'r pancreas i ryddhau inswlin. Yn oedi gwagio'r stumog, a gall leihau chwant bwyd.
RHOI'R FEDDYGINIAETH	Gellir ei rhoi unwaith neu ddwywaith bob diwrnod – RHAID ei rhoi gyda bwyd – fel arfer gyda brecwast a phryd gyda'r nos.	Unwaith bob diwrnod, yn y bore.	Unwaith bob diwrnod, yn y bore.	Unwaith neu ddwywaith bob diwrnod – RHAID ei rhoi gyda bwyd. Angen monitro glwcos.	Unwaith bob diwrnod, yn y bore.	Pigiad – Dulaglutid (Trulicity), Semaglutid (Ozempic), Exenatid (Bydureon) – unwaith bob wythnos. Liraglutid (Victoza), Lixisenatid (Lyxumia) – unwaith bob diwrnod. Semaglutid (Rybelsus) – un TABLED bob diwrnod.
ADWEITHIAU NEWIDIOL	Dolur rhydd yw'r sgil-ffaith fwyaf cyffredin, fel arfer wrth ddechrau'r feddyginiaeth – peidiwch â rhoi'r feddyginiaeth yn ystod cyfnodau o salwch.	Y llindag yn yr organau rhywiol, pasio dŵr yn aml. Mae colli pwysau i'w ddisgwyl. Peidiwch â rhoi'r feddyginiaeth yn ystod cyfnodau o salwch.	Lefelau goddefgar-wch da fel arfer.	RISG O BWL HYPO	Ataliad hylif, gall achosi diffyg anadl a bydd angen adolygiad meddygol. Rhowch y gorau i roi'r feddyginiaeth hon mewn unrhyw achos o waed yn y dŵr.	Cyfog a diffyg chwant bwyd yw'r prif sgil-ef- feithiau. Mae colli pwysau i'w ddisgwyl.

Mae cyfniad o therapïau o feddyginiaethau drwy'r geg ac yn aml caiff y rhain eu presgripsiynu i leihau baich sawl meddyginiaeth a all fod yn anodd i bobl eu cymryd. Gellir presgripsiynu rhai therapïau drwy'r geg ar ffurf hylif – os yw'r unigolyn sy'n dioddef o ddiabetes yn ei chael hi'n anodd cymryd ei feddyginiaethau, siaradwch â'r fferylllydd neu'r meddyg teulu.

Gellir rhoi cyfniad o feddyginiaethau pigiadwy, e.e. Xultophy neu Suliqua (gellir presgripsiynu cyfniadau o inswlin ac ysgogwyr derbynwyr GLP-1 ar gyfer rhai pobl sy'n dioddef o ddiabetes ac sydd angen GLP1 a therapi inswlin). Os ydych yn ansicr am unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu gweinyddu i rywun sy'n dioddef o ddiabetes yr ydych chi'n gofalu amdano, siaradwch â'r fferylllydd neu feddyg teulu.



Gwylwch y ffilm ganlynol gan

PocketMedic:

GLP-1 Injectables:

SGLT2s:

[SGLT2s + COVID-19:](#)

